# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Plas Hafan**

**Ffordd Dewi Sant**
**Pwllheli**
**LL53 6EA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

**29 January 2020**

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Cartref gofal preswyl yw Plas Hafan sydd wedi'i leoli yng nghanol pentref Nefyn. Mae'r gwasanaeth yn darparu gofal personol i hyd at 30 o bobl 55 oed a throsodd – gall wyth ohonynt fod â diagnosis o ddementia. Y darparwr yw Cyngor Gwynedd ac Aled Davies yw'r unigolyn cyfrifol. Mae'r rheolwr wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn fodlon eu byd ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Roedd y bobl yn cael eu cefnogi i fod yn annibynnol ac yn egnïol. Roedd y staff gofal yn garedig, amyneddgar a pharchus, ac yn canolbwyntio ar anghenion unigol; roeddent yn annog y bobl i gymdeithasu a chymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned leol. Roedd y tîm rheoli yn cymryd camau i sicrhau bod y staff gofal yn cael eu cefnogi i ddiwallu anghenion unigol y bobl. Roedd yr amgylchedd wedi'i drefnu a'i gynllunio fel bod gan y bobl a'r staff gofal fynediad hawdd.

### 2. Gwelliannau

Hwn oedd yr arolygiad cyntaf a gwblhawyd ers i'r gwasanaeth gael ei ailgofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (RISCA).

### 3. Gofynion ac argymhellion

Ni nodwyd unrhyw ofynion nac argymhellion yn ystod yr arolygiad hwn.

## Llesiant

### Ein canfyddiadau

Mae gan y bobl ddewis a rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Roedd y staff gofal yn trin y bobl ag urddas a pharch ac roeddent yn garedig ac yn amyneddgar â nhw. Gwelsom fod cynllunio gofal yn canolbwyntio ar anghenion unigol. Roedd y tîm rheoli yn gyson ac yn cefnogi'r staff gofal yn effeithiol. Roedd yr amgylchedd yn lân, yn olau, yn gartrefol ac wedi'i drefnu'n briodol i alluogi'r bobl i gael y cymorth yr oedd ei angen arnynt. Caiff amgylchiadau unigol y bobl eu hystyried.

Caiff y bobl eu cefnogi a'u hannog i fod yn iach. Roedd y cynlluniau personol yn llawn gwybodaeth, yn glir, ac yn canolbwyntio ar anghenion unigol, corfforol a llesiant emosiynol y bobl. Roedd y staff gofal yn adnabod y bobl ac yn eu cefnogi'n dda. Gwelsom fod y staff gofal yn gweithio mewn partneriaeth â gweithwyr iechyd proffesiynol er mwyn sicrhau bod anghenion iechyd y bobl yn cael eu cynnal. Gwelsom gyfathrebu amserol â gweithwyr proffesiynol a oedd yn ymweld â'r cartref. Roedd y bobl yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau a chymdeithasu yn y gwasanaeth ac yn y gymuned leol.

Caiff y bobl gymorth i fod yn ddiogel. Roedd anghenion unigol y bobl yn cael eu hasesu'n drylwyr – roedd asesiadau risg manwl yn cael eu teilwra i anghenion unigol pan oedd angen. Roedd y cofnodion gofal yn dangos bod anghenion gofal y bobl yn cael eu hasesu a'u monitro pan neu os oedd anghenion gofal yn newid. Gwelsom fod y bobl a'u cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys yn y gwaith o adolygu eu gofal. Roedd y tîm rheoli yn goruchwylio'r gofal a'r asesiadau risg yn effeithiol. Roedd yr amgylchedd wedi'i osod er mwyn lleihau risg, er enghraifft risg o gwmpiadau. Mae'r bobl mor ddiogel â phosibl.

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sydd wedi'i gynllunio mewn ffordd sy'n galluogi'r staff gofal i gefnogi a hyrwyddo llesiant y bobl. Roedd y gwasanaeth yn lân ac roedd yr awyrgylch yn gartrefol. Roedd y bobl yn gallu dewis ble i dreulio eu hamser; roedd sawl ardal gymunedol i'r bobl gymdeithasu ynddynt. Roedd y staff gofal yn annog y bobl i wneud yr hyn roeddent am ei wneud ym mhob uned o'r cartref. Gwelsom fod anghenion unigol wedi cael eu hystyried pan gynlluniwyd yr amgylchedd. Roedd y tîm rheoli yn goruchwylio'r amgylchedd ac roedd nifer o welliannau diweddar yn amlwg yn y cartref. Caiff y bobl eu hannog i fod yn annibynnol mewn amgylchedd sy'n addas a hygyrch ac sydd wedi'i gynllunio i alluogi'r staff gofal i ddiwallu eu hanghenion.

## Gofal a Chymorth

### Ein canfyddiadau

Mae gan ddarparwr y gwasanaeth gynlluniau cywir a chyfredol ar gyfer anghenion gofal unigol. Roedd y cynlluniau personol yn drefnus iawn ac yn ganllaw clir i'r staff gofal. Dywedodd un aelod o'r staff gofal wrthym fod gan y bobl ofalwyr allweddol, a oedd yn golygu eu bod yn canolbwyntio ar anghenion gofal unigol ac yn ymwneud â'r gwaith o adolygu a diweddaru anghenion gofal y bobl. Gwnaethant ddweud, "*This works well because we can closely monitor any changes".* Gwelsom fod pob cynllun personol yn cynnwys fersiwn gryno a oedd yn galluogi'r staff gofal i'w hadolygu a chael gafael arnynt yn hawdd. Roedd y cofnodion gofal yn bersonol i'r unigolyn. Roedd y manylion yn cynnwys lluniau a disgrifiadau unigol o ddewisiadau, hoffterau, cas bethau, arferion, risgiau ac anghenion gofal y bobl. Roedd y rhain yn darparu gwybodaeth am hanes a chefndir y bobl a phethau a oedd yn bwysig iddynt. Roedd y cofnodion yn dangos cyfraniad yr unigolion, eu cynrychiolwyr a'r awdurdodau lleol a thystiolaeth o ganiatâd lle y bo'n berthnasol. Gwelsom atgyfeiriadau ac apwyntiadau gydag amrywiaeth o wasanaethau iechyd gan gynnwys ciropodydd, y deintydd, optegwyr a meddygon teulu. Roedd asesiadau risg manwl a chyfredol ar waith yn unol ag anghenion unigol. Mae'r rhain yn cynnwys symud a chodi a chario, risg o gwmpiadau, cerdded a gofal y croen. Gwelsom fod y cofnodion gofal yn cael eu monitro yn fisol neu'n fwy cyson os oedd angen. Mae'r cynlluniau personol yn fanwl sy'n galluogi'r staff gofal i ddiwallu anghenion unigol.

Caiff yr unigolion eu cefnogi i gynnal deiet iach. Gwelsom fod y bobl yn cael cynnig dewis o fwyd yn ystod amser cinio. Gwelsom fod y bobl yn gallu gofyn am ddewisiadau amgen o ran prydau bwyd os oeddent yn dymuno. Gwelsom y fwydlen pedair wythnos; gwelsom fod y prydau bwyd a gynigir yn faethol ac amrywiol, ac yn gyson â'r dewisiadau a welsom yn cael eu cynnig i'r bobl. Drwy gydol y dydd, gwelsom y bobl yn helpu eu hunain i fyrbrydau iach, a oedd ar gael yn yr ardaloedd cymunedol. Dywedodd uwch-ofalwr wrthym, "*We monitor what people eat due to their dietary needs*". Roedd y cofnodion personol yn dangos bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i anghenion iechyd y bobl gan gynnwys diabetes, dysffasia a gofal y geg. Dangoswyd y wobr aur i ni, yr oedd y gwasanaeth wedi'i derbyn gan grŵp cyfathrebu deintyddol blaenllaw (FMC) am ei ddull o fynd i'r afael â gofal y geg, ym mis Tachwedd 2019. Maent yn meddu ar wobr arian ar hyn o bryd wrth i'r staff gofal gwblhau'r hyfforddiant gofynnol ar ofal y geg. Gwelsom dystiolaeth bod y staff gofal, y Nyrsys Ardal a'r deietegwyr yn cyfathrebu â'i gilydd yn rheolaidd. Clywsom y staff yn trafod y gwaith o fonitro iechyd y bobl; gwnaethant ddweud wrthym, "*It's important to know people's routines, likes and dislikes, so we can ensure they remain healthy"*. Roedd y cofnodion personol yn dangos bod y gwaith o fonitro'r hyn y mae'r bobl wedi'i fwyta a'i yfed a'u pwysau yn cael ei gynnal pan fo angen. Gwelsom fod pwysau'r bobl wedi gwella ychydig ers iddynt fyw yn y

gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth yn effeithiol wrth flaenoriaethu anghenion iechyd unigol a darparu deiet maethol a chytbwys i'r bobl.

Caiff y bobl eu hannog i gymdeithasu a chymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau. Dywedodd un person wrthym, *“I enjoy going for a pint on a Sunday and playing pool”.* Gwelsom luniau o'r bobl yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau yn y gwasanaeth a thu allan i'r gwasanaeth. Dywedodd teulu a oedd yn ymweld wrthym, “*There is always enough for people to do here”*. Dywedodd person arall wrthym, “*I enjoy playing bingo”*. Dywedodd y staff gofal wrthym fod pobl o bedair uned y gwasanaeth yn dod ynghyd i chwarae gemau. “*We give people the choice because some people don’t like games, they prefer entertainment”.* Dywedodd tri unigolyn wrthym eu bod yn mwynhau diddanwyr sy'n ymweld â'r cartref; dywedodd aelod o'r staff gofal wrthym bod côr yn ymweld â'r cartref ym mis Chwefror 2020. Gwelsom arwyddion ym mhob rhan o'r gwasanaeth, a oedd yn tynnu sylw at adloniant a oedd wedi'i gynllunio. Gwelsom gwpwrdd gemau a oedd yn cynnwys gemau amrywiol, crefftau a chyfarpar gwau. Gwelsom luniau o bobl yn creu eitemau crefft. Gwelsom asesiadau risg priodol mewn perthynas â theithiau y tu allan i'r cartref. Caiff arferion, diddordebau a dymuniadau personol y bobl eu hystyried.

Caiff y bobl eu cefnogi i gael gofal iechyd. Roedd y ffeiliau gofal a ddarllenom yn dangos bod y bobl wedi'u cofrestru gyda'r meddygon teulu lleol. Gwelsom ddau weithiwr iechyd proffesiynol yn galw heibio'r gwasanaeth ar y diwrnod y gwnaethom ymweld; dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn galw heibio ddwywaith y dydd weithiau er mwyn adolygu anghenion iechyd y bobl, a bod ganddynt gydberthynas dda â nhw. Gwnaethom siarad â gweithiwr iechyd proffesiynol a oedd yn ymweld â'r cartref a ddywedodd wrthym, *“we work well together”.* Gwnaethom adolygu'r cofnodion cyfathrebu rhwng y staff gofal a'r gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld â'r cartref, a oedd yn glir ac yn dangos eu bod yn cysylltu'n rheolaidd â meddygon teulu, ffisiotherapyddion, nyrsys ardal, optegwyr a deintyddion. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn monitro'r cofnodion hyn yn agos ac yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol, yn unol ag anghenion iechyd y bobl. Mae gweithwyr iechyd proffesiynol ar gael i'r bobl yn rheolaidd ac yn effeithiol drwy gyfathrebu cadarn a rheolaidd.

## Yr Amgylchedd

### Ein canfyddiadau

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth mewn amgylchedd cartrefol sydd wedi'i drefnu i ddiwallu anghenion unigol. Roedd y cyntedd yn cynnwys blodau, arwydd 'Croeso' a lluniau o ddigwyddiadau amrywiol, gan gynnwys dathliadau pen-blwydd. Gwelsom y pedair uned – roedd pob un ohonynt yn cynnwys lolfeydd, ardaloedd bwyta ac ystafelloedd gwely'r bobl. Roedd un o'r unedau wedi'i hadeiladu yn arbennig i bobl sy'n byw gyda dementia. Gwelsom fod yr uned hon wedi'i gosod er budd y bobl sy'n byw gyda dementia. Er enghraifft, roedd yr ardal hon yn agored, roedd tân trydan ag effaith fflamau realistig, golygfeydd o'r ardd ac eitemau lliwgar, gan gynnwys sedd doiled a rheilen ddwylo i helpu'r bobl gyda'u synnwyr o le. Gwelsom y bobl yn ymgasglu a chyfathrebu â'i gilydd a'r staff gofal drwy gydol y dydd. Gwelsom fod cymhorthion cerdded ar gael ac wedi'u haddasu at ddefnydd yr unigolion. Roedd y sampl o ystafelloedd gwely a welsom yn bersonol ac yn lân. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn edrych ymlaen at ymweld â'r cyfleusterau trin gwallt a gwelsom bobl yn eu defnyddio. Mae'r amgylchedd wedi'i osod i alluogi'r bobl i deimlo'n gartrefol.

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd diogel. Roedd y fynedfa yn ddiogel a gwnaeth y staff gofal ein gwahodd i lofnodi'r llyfr ymwelwyr a dangos prawf adnabod. Dyfarnwyd sgôr o bum seren i'r gwasanaeth mewn perthynas â diogelwch a hylendid bwyd; hon yw'r safon hylendid bwyd uchaf y gellir ei chael. Roedd y cofnodion yn dangos bod gwiriadau iechyd a diogelwch yn cael eu cwblhau, gan gynnwys tymheredd yr oergell a'r bwyd. Gwelsom fod gwiriadau wedi'u cwblhau mewn perthynas â diogelwch tân, legionella, nwyddau trydanol a chyfarpar arbenigol. Roedd Cynlluniau Personol Gadael mewn Argyfwng y bobl wedi’u personoli, wedi'u cofnodi'n glir ac wedi'u storio fel bod modd cael gafael arnynt yn hawdd mewn argyfwng. Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd cartrefol sydd wedi cael ei addasu i gefnogi a hybu eu hannibyniaeth.

## Arwain a Rheoli

### Ein canfyddiadau

Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo polisi cwyno hygyrch. Roedd gweithdrefnau a pholisi cwyno'r gwasanaeth wedi'u dogfennu'n glir; roedd y rhain yn ddwyieithog ac ar gael yn hawdd i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, eu teuluoedd, ymwelwyr a'r staff. Gwnaethom ofyn i'r bobl a oeddent yn gwybod beth i'w wneud pe na fyddent yn hapus gyda'u gofal; dywedodd tri pherson wrthym eu bod yn gwybod beth i'w wneud a'u bod yn teimlo eu bod yn gallu mynd at y staff gofal a'r rheolwr. Gwelsom y bobl yn mynd at y staff a'r rheolwr drwy gydol y dydd. Dywedodd dau aelod o deulu a oedd yn ymweld â'r cartref bod y gwasanaeth yn darparu taflenni iddynt pan fo'u perthynas yn cyrraedd y cartref a oedd yn dangos iddynt sut mae gwneud cwyn. Dywedodd y staff gofal y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn adolygu'r gweithdrefnau cwyno yn ystod eu cyfnod sefydlu ac yn gwybod ble i gael gafael arnynt. Gwelsom lofnodion y staff gofal yn eu cofnod sefydlu. Er bod y rheolwr wedi dweud wrthym nad oedd y gwasanaeth wedi cael unrhyw gwynion yn ddiweddar, dangosodd negeseuon o ganmoliaeth a anfonwyd gan aelodau o deuluoedd y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Gwelsom fod y wybodaeth hon yn cael ei hanfon yn fisol at y darparwr at ddibenion monitro ansawdd. Roedd y ffeiliau gofal a welsom yn cynnwys contractau am y broses gwyno. Roedd y datganiad o ddiben yn cynnwys canllawiau ar sut i wneud cwyn ac i bwy. Mae systemau ar waith i sicrhau y caiff gweithdrefnau cywir a chyson eu dilyn mewn ymateb i gŵyn.

Mae'r datganiad o ddiben yn rhoi disgrifiad cywir o'r gwasanaeth a ddarperir. Roedd y ddogfen hon ar gael ar y diwrnod ac roedd yn nodi ble a sut y caiff y gwasanaeth ei ddarparu. Roedd hon yn cynnwys gwybodaeth am ystod yr oedrannau, yr anghenion gofal a ddiwallir gan y gwasanaeth, hawliau preifatrwydd ac urddas a derbyn achosion brys. Gwelsom fod y ddogfen hon yn gyfredol ac yn cynnwys y fersiwn ddiweddaraf a'r dyddiad adolygu. Mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn unol â'r datganiad o ddiben.

Caiff y bobl eu cefnogi gan nifer priodol o staff cymwys sy'n meddu ar y cymwysterau a'r sgiliau i ddarparu'r lefelau gofal a chymorth gofynnol. Dywedodd y rheolwr wrthym fod 34 o aelodau o staff gofal a bod wyth ohonynt wedi cael eu recriwtio'n ddiweddar. Roedd y rota yn cefnogi'r broses o recriwtio staff newydd ac yn dangos bod digon o staff ar gael. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a bod digon o staff ar gael i ddiwallu anghenion y bobl. Gwelsom fod y staff gofal yn cael arfarniadau,

goruchwyliaeth reolaidd, hyfforddiant a chyfnod sefydlu trylwyr. Roedd ffeiliau'r staff yn dangos bod y staff yn cael eu recriwito'n ddiogel gyda phrofiad, cyfnod sefydlu a hyfforddiant priodol. Roedd y cofnodion hyfforddiant, y tystysgrifau a'r cofnodion goruchwylio'n dangos bod y tîm rheoli yn cefnogi'r staff gofal o fewn yr amserlenni gofynnol ac yn tynnu sylw at feysydd ar gyfer datblygu a hyfforddi'r staff. Mae'r staff gofal yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth sydd ei hangen i ddarparu'r lefelau gofal a chymorth sydd eu hangen i alluogi'r unigolyn i gyflawni ei ganlyniadau personol.

Mae'r darparwr yn goruchwylio'r gwasanaeth yn effeithiol. Gwelsom fod targedau perfformio'r gwasanaeth yn cael eu monitro bob deufis a bod yr unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd. Gwnaethom ddarllen holiaduron a gwblhawyd gan y bobl, teulu a ffrindiau, y staff gofal a gweithwyr proffesiynol, a oedd yn llywio'r broses o wella. Gwelsom fod blychau awgrymiadau ar gael ar gyfer sylwadau mewn ardaloedd amrywiol yn y cartref. Gwelsom fod prosesau archwilio amrywiol ar waith i fonitro ansawdd, gan gynnwys cynnal a chadw a rheoli meddyginiaeth. Roedd y cofnodion yn dangos bod yr unigolyn cyfrifol yn goruchwylio ac yn darparu cymorth rheolaidd i'r tîm rheoli, yn ychwangeol i'w ymweliadau lle roedd yn trafod materion yn ymwneud â'r gwasanaeth. Gwelsom adroddiad o ansawdd diweddaraf y gwasanaeth a oedd yn canolbwyntio ar staffio, y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, datblygiadau, gwelliannau drwy gydol y flwyddyn a datblygiadau a gynlluniwyd. Mae'r darparwr yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i sicrhau gwelliant, cysondeb a goruchwyliaeth effeithlon.

## Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

## Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Hwn oedd yr arolygiad cyntaf a gwblhawyd ers i'r gwasanaeth gael ei gofrestru a'i gymeradwyo o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (RISCA)

## Argymhellion ar gyfer gwella

Ni wnaed unrhyw argymhellion ar gyfer gwella yn ystod yr arolygiad hwn.

Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arolygu. Gwnaethom ymweld â'r cartref yn ddirybudd ar 29 Ionawr 2020 rhwng 9:30am a 7:00pm.

Ystyriwyd y rheoliadau canlynol fel rhan o'r arolygiad hwn:

- Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017.

Defnyddiwyd y dulliau canlynol:

- Gwnaethom siarad â phedwar unigolyn a oedd yn byw yn y gwasanaeth, tri aelod o'r staff gofal, un gweithiwr proffesiynol a oedd yn ymweld â'r cartref, y dirprwy reolwr a'r rheolwr.

- Gwnaethom ddarllen amrywiaeth eang o gofnodion a chanolbwyntio ar bedair ffeil bersonol, ffeiliau pedwar aelod o'r staff, rota'r staff, y rhaglen hyfforddi a'r adroddiad ar ansawdd y gofal.

- Gwnaethom adolygu'r Datganiad o Ddiben a'i gymharu â'r gwasanaeth a welsom ar waith. Mae'r Datganiad o Ddiben yn pennu'r weledigaeth ar gyfer y gwasanaeth ac yn dangos y ffordd y bydd y gwasanaeth yn hyrwyddo'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer y bobl y mae'n gofalu amdanynt, yn enwedig o ran y lefelau staffio a hyfforddiant ac ati.

- Gwnaethom ddefnyddio adnodd Fframwaith Arsylwi Byr ar gyfer Arolygu (SOFI), sy'n galluogi arolygwyr i arsylwi ar ofal a'i gofnodi er mwyn ein helpu i ddeall profiadau'r bobl na allant gyfathrebu'n hawdd.

- Gwelsom wyth ystafell wely, ardaloedd cymunedol y cartref, gan gynnwys lolfeydd, ystafelloedd gwely, ardal y gegin a'r uned a oedd wedi'i hadeiladu yn benodol ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gwasanaeth Cartref Gofal** |
| **Darparwr y Gwasanaeth** | **Cyngor Gwynedd** |
| **Unigolyn Cyfrifol** | **Aled Davies** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **30** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **Hwn oedd yr arolygiad cyntaf a gynhaliwyd o dan RISCA** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **29 Ionawr 2020** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Y Gymraeg a'r Saesneg** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog.** |

| **Gwybodaeth Ychwanegol:** |
|---|
| |

**Dyddiad Cyhoeddi** 04/08/20